| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **13 Medi 2016** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |

## 1.0 CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu diweddariad ar lle'r ydym arni o ran gwireddu addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni ac amlinellu'r diweddaraf ar gynlluniau arbedion.

Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 2.

Yn ogystal rwyf yn crybwyll y sefyllfa gyda mesurau perfformiad yn rhan 3 o fewn yr Adran Rheoleiddio.

## 2.0 ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

### Adran Rheoleiddio

Er bod y darlun cyflawni yn ei gyfanrwydd yn addawol gyda 59% o arbedion Effeithlonrwydd 2016/17 wedi eu gwireddu ynghyd ag 79% o doriadau'r flwyddyn, nodir pryder parthed y gallu i wireddu sawl cynllun yn unol â'r hyn oedd wedi ei ragweld. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond un cynllun (Rh21 – Cydweithio cefn gwlad a mynediad (Gwynedd a'r Parc) yn 2017/18 (£35,000)) sy'n cael ei gydnabod na ellir ei wireddu.

Fel rwyf wedi nodi o'r blaen mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar gynlluniau amgen er mwyn ceisio cyfarch y materion a amlygir uchod a bu i'r rhain gael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar y 16eg o Fehefin. Cymeradwywyd y cynlluniau gan y Cabinet ar y 12fed o Orffennaf.

Mae cynlluniau o fewn y toriadau i gau adeiladau Frondeg, Pwllheli ac Adeilad Ffordd y Traeth, Felinheli. Er bod trafodaethau hefo defnyddwyr Frondeg yn mynd rhagddynt yn well na'r rhagdybiwyd mae problemau wedi dod i'r amlwg hefo Adeilad Ffordd y Traeth ac nid yw cau yn debygol o gynnig yr arbediad a ragwelwyd.

Fodd bynnag, mae cyfle wedi ei adnabod i osod gofod o fewn swyddfa Penrallt fyddai'n cyflawni'r arbediad dan sylw. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ynghylch y bwriad o wireddu'r swm trwy osod Penrallt a pheidio cau Ffordd y Traeth ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Medi.

## 3.0 MESURAU

Mae gennyf rywfaint o bryder nad yw nifer o’r mesurau yn cyfleu'r hyn sydd ei angen ar drigolion Gwynedd ac o ganlyniad rwyf wedi gofyn i Reolwyr o fewn yr Adran ail edrych ar y mesurau er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn mesur y materion sy’n bwysig i’r trigolion. Nid wyf ychwaith yn sicr os oes angen adrodd ar gymaint o fesurau a’r adroddir arnynt ar hyn o bryd a byddaf yn edrych ar hyn erbyn y cylch adrodd nesaf.

Ceir rhestr lawn o’r mesurau perfformiad yn ***Atodiad 1***, ond nodir y prif negeseuon ynghyd ac unrhyw ymatebion i bwyntiau gweithredu o’r adroddiad perfformiad diwethaf isod:

**PLA/004b Lleol - Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod a pa mor sydyn maent yn cael eu penderfynu ar gyfartaledd.**

Nodir fod y perfformiad yn parhau i wella gyda 90.12% o geisiadau wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod (8 wythnos) yn ystod Ebrill a Mai o’i gymharu â 72.86% yn ystod 2013-14. Golyga hyn yn ystod Ebrill a Mai y daethpwyd i benderfyniad ar 146 allan o 162 o geisiadau o fewn 56 diwrnod neu 8 wythnos gyda’r cyfartaledd i ddod i benderfyniad yn 36 o ddiwrnodau. Mae’r cyfartaledd ar gyfer dod i benderfyniad ar yr holl geisiadau wedi lleihau i 51 diwrnod o’i gymharu a 60 diwrnod yn 2015/16.

**Cludiant02 - Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth**

Rwyf wedi gofyn i’r Gwasanaeth edrych ar y mesur hwn gan fesur y gwasanaethau sy’n cael eu comisiynu gan y Cyngor yn unig gan mai dros y rhain yn unig y mae gennym ddylanwad. Byddaf hefyd yn trafod sut i wneud yn siŵr fod y cwmnïau dan sylw yn ymwybodol o’r angen i roi Pobl Gwynedd yn ganolog erbyn y cyfarfod perfformiad nesaf ym mis Medi.

---

## 4.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Yn amlwg, mae angen cadw ffocws pendant ar wireddu addewidion y Cynllun Strategol am arbedion a lle nad oes modd gwireddu’r union gynllun, bod cynllun amgen yn cael ei gynnig yn ei le.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Yn unol â'r hyn drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet, mae amrywiol resymau pam nad yw rhai o gynlluniau arbedion gwreiddiol yr Adran Rheoleiddio wedi'u gwireddu, ond deallaf fod yr Adran yn datblygu arbedion amgen gwerth £278,440. Nodwyd ar 12 Gorffennaf y bydd adroddiad pellach i'r Cabinet cyn Ebrill 2017 er mwyn cymeradwyo manylion y cynlluniau rheiny.